

Siarter Llysoedd - Llysoedd Teulu

Mae'r daflen hon yn nodi safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gan unrhyw Lys Teulu (Sirol neu Ynadon) yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi gosod y safonau hyn ar ôl siarad â phobl sydd wedi defnyddio'r llys. Ein nod yw darparu gwasanaeth rhagorol a chwrtais a phan ddowch i'r llys gallwch ddisgwyl cael eich trin yn deg ac yn gyfartal, waeth beth yw eich oed, eich tarddiad ethnig, eich anabledd, eich rhyw, eich tueddfryd rhywiol neu eich credoau crefyddol.

Mae'r Siarter hwn yn ymdrin â gweinyddiaeth y llys, nid y penderfyniadau a wneir gan farnwyr neu ynadon. Efallai y gallwch apelio i lys uwch os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich achos. Os ydych eisiau gwneud hynny, dylech gael cyngor cyfreithiol. Sylwch na all staff y llys roi cyngor cyfreithiol i gwsmeriaid.

Os ydych yn dod i'r llys

Pan ofynnir i chi ddod i'r llys am y tro cyntaf byddwn yn anfon y canlynol atoch chi, neu at eich twrnai:

- map yn dangos sut i gyrraedd y llys;
- manylion trafndiaeth gyhoeddus ac unrhyw feysydd parcio ger y llys;
- manylion amseroedd agor y llys;
- gwybodaeth am luniaeth, ffonau, manau aros ar wahân ac yn y blaen;
- manylion cyswilt y Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid neu Reolwr y Llys.

Cyn dyddiad eich gwrandawriad, gallwch ofyn am gael gweld y math o ystafell, neu lys, lle cynhelir eich achos. Mae cyfleusterau fideo gynadledda ar gael hefyd gyda chaniatâd y llys. Mae'r rhestr o'r safleoedd fideo gynadledda ar gael ar wefan GLIEM neu yn eich Canolfan Ofal leol.

Os oes gennych anabledd a bod angen help arnoch yn ystod eich gwrandawriad llys, siaradwch â'r Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid neu'r Swyddog Pobl Anabl a fydd yn dweud wrthy ch sut y gallwn eich helpu.

Gallwn ddarparu cyfieithwyr ar gyfer rhai mathau o achosion ond ar gyfer eraill bydd angen i chi drefnu a thalu am y gwasanaeth eich hun. Gall staff y llys roi rhagor o wybodaeth i chi ar gais.

Mae adeilad y llys ar agor o 9am ymlaen fel arfer ar ddiwrnodau pan fydd gwrandawriadau'n cael cynnal. Mae'r cownter cyhoeddus neu'r pwynt ymholiadau ar agor fel arfer rhwng 10am a 4pm, ond efallai fod rhai ar agor am fwy o amser na'r safon sylfaenol cenedlaethol hwn.

Sylwch os gwelwch yn dda na chaniateir ysmegu yn unrhyw ran o'n hadeiladau.

Pan gyrhaeddwch y llys byddwch yn gweld y canlynol:

- staff cwrtais, boneddigaid a chymwynasgar yn gwisgo bathodynau adnabod dwyieithog;
- arwyddion clir i'ch helpu chi i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas;
- taflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos;
- hysbysiad yn rhoi manylion y Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid neu swyddog priodol arall, a fydd yn fodlon eich helpu os oes gennych unrhyw anghenion arbennig, awgrymiadau neu gwynion.

Pan fyddwch yn mynd at y cownter cyhoeddus neu'r pwynt ymholiadau, byddwn yn:

- parchu eich preifatrwydd;
- siarad â chi lle na all aelodau eraill o'r cyhoedd eich clywed petai'n well gennych chi hynny;
- defnyddio iaith syml a chlr a sicrhau bod unrhyw derm technegol yn cael ei esbonio;
- rhoi'r opsiwn i chi gynnal sgwrs yn Gymraeg os dymunwch. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, rhoddir dewis i chi un ai i gynnal y sgwrs yn Saesneg, defnyddio Llinell Gymorth yr Iaith Gymraeg 0800 212 368, neu gellir trefnu i siaradwr Cymraeg fod ar gael ar ddyddiad arall;
- delio â'ch ymholiad o fewn 10 munud, neu esbonio'r oedi os bydd yn rhaid i chi aros yn hirach.

Gallwch ein ffonio ni rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a byddwn yn:

- rhoi enw'r person sy'n siarad â chi;
- ateb y ffôn yn gyflym ac yn gymwynasgar;
- yn cyfarch yn ddwyieithog yng Nghymru a rhoi'r opsiwn i chi gynnal y sgwrs yn Gymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, rhoddir dewis i chi un ai i gynnal y sgwrs yn Saesneg, defnyddio Llinell Gymorth yr Iaith Gymraeg 0800 212 368, neu gellir trefnu i siaradwr Cymraeg fod ar gael ar ddyddiad arall;
- rhoi ateb clir a fydd o gymorth i chi;
- sicrhau, os bydd y swyddfa ar gau am unrhyw reswm, y bydd peiriant ateb yn cymryd eich neges a byddwn yn dychwelyd eich galwad ar y diwrnod gweithio nesaf.

Pan fyddwch yn ysgrifennu at y llys, a bod gofyn i ni ateb, byddwn yn:

- ysgrifennu atoch neu'n eich ffonio cyn pen 10 diwrnod gwaith i dderbyn eich llythyr;
- dweud wrthyfych pwy sy'n ysgrifennu a darparu rhif ffôn i gysylltu ag ef/hi os dymunwch.
- croesawu llythyrau drwy gyfrwng y Gymraeg ac os bydd ymateb yn briodol, byddwch yn derbyn ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg.

Os ydych chi eisiau cychwyn achos byddwn yn:

- anfon y dogfennau sy'n ymwneud â'ch achos cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais;
- rhoi cyfeirnod eich achos i chi cyn pen 10 diwrnod gwaith i'ch achos gael ei gychwyn;
- rhoi'r dyddiad y bydd yn rhaid i chi ddod i'r llys os yw hyn yn briodol.

Gallwn roi ffurflenni i chi a'ch helpu i'w llenwi ond ni allwn roi cyngor cyfreithiol i chi na dweud wrthyich beth i'w ddweud. Ni allwn ddweud wrthyich a fydd eich achos yn debyg o lwyddo ai peidio, na dweud wrthyich beth fydd penderfyniad y llys.

Gallwn ddweud wrthyich sut i gael cyngor gan dwrnai neu Ganolfan Cyngor Ar Bopeth neu asiantaethau perthnasol eraill.

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Bydd Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS Direct), gwasanaeth rhad ac am ddim a ariennir gan y llywodraeth, yn gallu darparu gwybodaeth am ble y gallwch gael y math o gyngor cyfreithiol sydd ei angen arnoch.

Rhif ffôn: 0845 345 4345
gwefan: www.clsdirect.org.uk

Cyngor Ar Bopeth

Mae CAB yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol am ddim ar amrywiaeth eang o faterion. Arddangosir rhif ffôn a chyfeiriad y swyddfa leol yn y Llys.

gwefan: www.citizensadvice.org.uk

Eich gwrandawriad llys

Cynhelir y rhan fwyaf o achosion teulu yn breifat. Os ydych yn poeni neu os oes gennych unrhyw bryderon am y trefniadau yr ydym wedi'u gwneud ar gyfer eich achos, siaradwch ag un o staff y llys a all roi gwybod i chi am y cyfleusterau arbennig sydd ar gael.

Os bydd yn rhaid i'ch achos fynd gerbron llys, ni allwn warantu pryd y caiff ei gynnal. Serch hynny, ein nod yw:

- rhestru achos ar gyfer cyfarwyddiadau, apwyntiad cyntaf neu gyfryngu o fewn 6 wythnos i'r cais cyntaf;
- cwblhau achos cyn pen 40 wythnos o'r apwyntiad cyntaf i'r gorchymyn absoliwt;
- cwblhau achos ar gyfer mabwysiadu cyn pen 20 wythnos o'r apwyntiad cyntaf i'r gorchymyn absoliwt;
- rhestru achos ar gyfer y gwrandawriad llareiddiad ategol cyntaf cyn pen 16 wythnos i'r cais.

Pan gyrhaeddwch y llys byddwn yn:

- dangos lle y cynhelir eich achos ar hysbysfwrdd;
- trefnu i chi aros ar wahân i dystion yr ochr arall os nad oes man aros ar wahân. Gofynnwch i staff y llys petai'n well gennych chi hyny.
- delio â'ch achos cyn gynted â phosibl. Ond mae hi'n bosibl i bethau fynd ar ei hôl hi, er enghraifft os bydd yr achos o flaen eich achos chi yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl

Os bydd yn rhaid i chi ddisgwyl byddwn yn

- dweud wrthyich yn rheolaidd faint yn fwy y bydd yn rhaid i chi ddisgwyl;
- dweud wrthyich cyn gynted ag sy'n bosibl os na ellir cynnal eich achos y diwrnod hwnnw.

Os bydd yn rhaid i ni newid dyddiad eich gwrandawriad, byddwn yn dweud hynny wrthyich chi cyn gynted ag y gallwn.

Penderfyniadau a gorchmynion y llys

Gall y barnwr neu'r ynad wrando eich achos mewn llys neu benderfynu ar sail y dogfennau sy'n ymwneud â'ch achos. Byddwn yn anfon gorchymyn atoch a fydd yn cynnwys penderfyniad y llys cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y penderfyniad.

Os ydych chi a'r bobl eraill sy'n ymwneud â'ch achos yn paratoi'r gorchymyn, byddwn yn ei anfon allan cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i ni dderbyn y dogfennau.

Ysgariad / Diddymiad

Os gofynnwch i ni godi deiseb *ysgaru / diddymu*, byddwn yn anfon copi at eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil, ac unrhyw un arall a ddylai gael copi, cyn pen 10 diwrnod gwaith.

Os bydd y llys yn penderfynu y dylech chi gael ysgariad /diddymiad, byddwn yn anfon *dyfarniad nisi* (y gorchymyn llys sy'n arwain at ysgariad /diddymiad) atoch chi a'ch gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil. Byddwn yn gwneud hyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r llys wneud ei benderfyniad.

Gallwch wneud cais am eich dyfarniad absoliwt

6 wythnos ac un diwrnod ar ôl cyhoeddi eich dyfarniad nisi. Byddwn wedyn yn:

- anfon *dyfarniad absoliwt* allan (gorchymyn ysgariad / diddymu'r llys) ar y diwrnod y byddwn yn derbyn eich cais a'ch ffi;
- rhoi'r dyfarniad absoliwt yn eich llaw os dewch chi i'r llys i'w gasglu.

Cytundeb Cyfrifoldeb Rhieni

Mae'r ffurflenni ar gael mewn unrhyw lys teulu. Pan fyddwch yn anfon eich *cytundeb cyfrifoldeb rhieni* wedi'i lenwi i'r llys teulu bydd yn cael ei gofrestru cyn pen 7 niwrnod gwaith ar ôl iddynt dderbyn eich ffurflen.

Sut i gael rhagor o wybodaeth

Os ydych chi eisiau gwybod am Ddeddf Plant 1989, gallwch gael taflenni a gwybodaeth gan yr

Adran Iechyd,
PO Box 777,
Llundain SE1 6XH
Rhadffôn: 0800 555777

Ffacs: 01623 724524
gwefan: www.doh.gov.uk

Mae taflenni am y gwahanol fathau o achosion teulu ar gael mewn unrhyw lys teulu. Byddwn yn anfon y taflenni y byddwch yn gofyn amdanynt atoch o fewn 10 diwrnod. Maent ar gael hefyd ar ein gwefan:

www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Gwrando arnoch chi

Croesawn eich sylwadau a'ch awgrymiadau ar sut y gallem ni wella ein gwasanaeth i chi. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- eich gwahodd chi i lenwi cardiau sylwadau;
- cynnal arolygon lleol;
- talu sylw i bob sylw, cwyn ac awgrym;
- arddangos gwybodaeth am ein perfformiad;
- arddangos, ym manau aros y llys, fanylion am gwynion ac awgrymiadau a beth yr ydym wedi'i wneud i wella pethau o ganlyniad i'ch adborth;
- arddangos canlyniadau arolygon lleol a newidiadau yr ydym wedi'u gwneud o'u herwydd.

Os ydych chi eisiau cwyno, rhowch wybod i ni cyn gynted ag sy'n bosibl a byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddatrys y broblem yn y fan a'r lle. Os ydych yn dal yn anhapus, gallwch siarad â'r Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid neu'r Rheolwr Teulu. Petai'n well gennych, gallwch ysgrifennu at Reolwr y Llys yn y llys dan sylw.

Byddwn yn anelu at ddatrys ac ymateb i bob cwyn, gan roi ateb llawn i chi o fewn 5 diwrnod gwaith i'w derbyn.

Mae taflen o'r enw "Rydw i eisiau cwyno - beth ddylwn i ei wneud" ar gael ymhob llys. I gael rhagor o wybodaeth gofynnwch i un o staff y llys neu ewch i'n gwefan yn

www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Croesawn awgrymiadau a chanmoliaeth hefyd .

Er y gallwn ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad barnwr neu ynad mewn llys, allwn ni ddim ymchwilio i unrhyw beth sy'n ymwneud â'u dyfarniad, eu hasesiad o achos na gwyrddroi unrhyw rai o'u penderfyniadau. Mae gwybodaeth am sut i gwyno am ymddygiad personol barnwyr neu ynadon ar gael ar y we:

www.judicialcomplaints.gov.uk

Dylid anfon cwynion ynghylch ymddygiad personol barnwyr yn y Llys Sirol at:

Office for Judicial Complaints (OJC),
4th Floor, Clive House,
70 Petty France,
Llundain SW1H 9HD

Rhif ffôn: 020 7189 2937

Ffacs: 020 7189 2936

Dylid anfon cwynion ynghylch ymddygiad personol ynadon yn y Llys Achosion Teulu, ar bapur, at eich Pwyllgor Ymgynghorol Lleol. Gallwch gael manylion eich Pwyllgor Ymgynghorol Lleol drwy ofyn yn swyddfa'r llys neu drwy fynd i'r wefan yn:

www.dca.gov.uk/magistrates/docs/advisorycomslist.pdf

Dylai eich llythyr i'r Swyddfa Cwynion Barnwrol neu'r Pwyllgor Ymgynghorol gynnwys enw'r barnwr neu'r ynad a'r llys, rhif eich achos a dyddiad y gwrandawriad ynghyd â manylion penodol yr ymddygiad yr ydych yn cwyno yn ei gylch.

Er na allwn ymchwilio i gwynion am dwrneiod, bargyfreithwyr nac unrhyw sefydliad arall, efallai y bydd y cyfeiriadau canlynol o ddefnydd i chi:

Twrneiod

Consumer Complaints Service,
The Law Society,
Victoria Court,
8 Dormer Place,
Leamington Spa,
Swydd Warwick CV32 5AE

Llinell gymorth: 0845 608 6565

Ffôn testun: 0845 601 1682

Ffacs: 01926 431435

ebost: enquiries@lawsociety.org.uk

gwefan: www.oss.lawsociety.org.uk

Bargyfreithwyr

Os hoffech chi gael ffurflen gwyno, ysgrifennwch at:

The Complaints Department,
The General Council of the Bar,
Northumberland House,
289-293 High Holborn,
Llundain WC1V 7HZ

Rhif ffôn: 020 7242 0082

Ffacs: 020 7905 2517

ebost: complaints@barcouncil.org.uk

gwefan: www.barcouncil.org.uk